# Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan

Bydd Dda, Bydd Doeth, Bydd Wych

**Ysgol Gymraeg Tan-y-lan**
**Polisi Presenoldeb**



# Ysgol Gymraeg Tan-y-lan
# Polisi Presenoldeb

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ganolog i gynllunio, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel ysgol sy'n parchu hawliau, yn ogystal ag addysgu am hawliau plant, rydym hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas – Cysylltiedig ag Erthyglau 18, 28 (CHP)

**Polisi Presenoldeb**

Credwn y gall plant gyrraedd eu potensial llawn trwy dderbyn addysg amser llawn, trwy bresenoldeb rheolaidd a strwythuredig yn unig. Mae Ysgol Gymraeg Tan-y-lan yn disgwyl i bob disgybl gyrraedd a gadael yr ysgol yn brydlon ac rydym yn pwysleisio hyn i rieni.

Mae lles a hapusrwydd y plant yn bwysig i'r holl staff, ac mae pawb yn chwarae rhan wrth hybu presenoldeb rheolaidd ymhlith y disgyblion. Fodd bynnag, ni ddylai plant ddod i'r ysgol os ydynt yn sâl. Defnyddiwyd yr arweiniad yng nghylchlythyr 47/06 y Swyddfa Gymreig i lunio'r polisi hwn.

**Nodau**

- Meithrin hinsawdd lle mae presenoldeb rheolaidd a phrydlondeb yn cael eu gwerthfawrogi gan gymuned yr ysgol - athrawon, rhieni a disgyblion.
- Darparu fframwaith, gyda rolau a chyfrifoldebau cytunedig.
- Darparu cefnogaeth ac arweiniad i rieni a disgyblion.
- Datblygu cyfathrebu cadarnhaol a chyson rhwng y cartref a'r ysgol, gan gynnwys gweithdrefnau penodol ar gyfer gwybodaeth am bresenoldeb.
- Datblygu dull systematig ar gyfer casglu a dadansoddi data.
- Gwella presenoldeb cyffredinol disgyblion yn yr ysgol a lleihau absenoldeb anawdurdodedig.
- Rhoi system wobrwyo a chosbau ar waith.
- Hybu partneriaeth effeithiol gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg ac asiantaethau eraill.

**Cyfathrebu**
Ceir gwybodaeth am brydlondeb, absenoldeb anawdurdodedig a salwch ym mhrosbectws yr ysgol. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd bod yn yr ysgol mewn pryd a rhoi gwybod i Ysgol Gymraeg Tan-y-lan os yw plentyn yn absennol am unrhyw reswm.

Mae pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd yn cael ei drafod a'i esbonio yn y cyfarfodydd sefydlu cyn oed ysgol a gynhelir bob blwyddyn i blant sydd ar fin dechrau yn y Dosbarth Meithrin a'r Dosbarth Derbyn. Mae hyn yn ailadrodd y dylai plant a rhieni gyrraedd yr ysgol yn brydlon, fel y gellir rhoi'r dechrau gorau posibl i'r diwrnod ysgol i'r plentyn. Pwysleisir hefyd y dylai plant ifanc yn benodol gael eu casglu'n brydlon, oherwydd y gall cael eu gadael ar eu pennau eu hunain beri gofid iddynt. Gofynnir i rieni rannu pryderon y gall fod gan eu plentyn yn yr ysgol. Mae angen i rieni fod yn ymwybodol y gall pethau bach hyd yn oed beri gofid i blant, sy'n golygu y gallant fod yn anhapus ac efallai na fyddant am ddod i'r ysgol.

Derbynnir plant i'r ysgol ar adegau amrywiol o'r flwyddyn hefyd, ac i grwpiau blwyddyn amrywiol. Gofynnir i'r holl rieni sy'n gwneud cais am le wneud apwyntiad gyda'r pennaeth. Yn y cyfarfod hwn, pwysleisir pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd, ynghyd ag arferion ysgol eraill.

Yn y cyfarfod sefydlu hwn, gofynnir i rieni drefnu eu gwyliau teuluol yn ystod gwyliau'r ysgol, yn hytrach nag yn ystod y tymor. Yn Ysgol Gymraeg Tan-y-lan, mae'n well gennym fod gwyliau teuluol yn cael eu cymryd yn ystod gwyliau'r ysgol, fel na therfir ar addysg y plant. Mae'r swyddog lles addysg/pennaeth yn cysylltu â rhieni sy'n cymryd gwyliau teuluol yn fynych yn ystod y tymor ac yn eu hatgoffa o'r tarfu ar addysg eu plant.

Yn Ysgol Gymraeg Tan-y-lan, gofynnir i rieni roi gwybod i'r ysgol trwy ddefnyddio'r ffurflen swyddogol os ydyn nhw'n bwriadu mynd â'u plentyn o'r ysgol ar gyfer gwyliau. Mae'n rhaid i'r ffurflen nodi'r dyddiadau y bydd y plentyn i ffwrdd a'r dyddiad dychwelyd i'r ysgol. Nodir bod gwyliau bob amser yn ANAWDURDODEDIG ar gofnod absenoldeb plentyn.

Mae absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig yn cael eu hesbonio yn ystod nosweithiau agored ar ddechrau'r flwyddyn academaidd yn ogystal ag adroddiadau presenoldeb tymhorol. Dylai pob rhiant gysylltu â'r ysgol os yw ei blentyn yn mynd i fod yn absennol neu'n hwyr. Mae galwad ffôn yn dderbyniol. Mae pob cofrestr yn electronig a gall gofnodi'r rhesymau dros absenoldeb yn electronig. Mae'n rhaid i unrhyw blentyn sy'n hwyr fynd i swyddfa'r ysgol i gael marc hwyr ar y gofrestr.

**Cofrestru**
Mae Ysgol Gymraeg Tan-y-lan yn defnyddio system gofrestru gyfrifiadurol ac mae'r gofrestr yn cael ei llenwi yn y bore am 8:50am ac yn y prynhawn – 12:45 ar gyfer y Cyfnod Sylfaen /Adran Iau. Bydd disgybl yn cael marc hwyr 10 munud ar ôl cofrestru. Bydd pob disgybl yn cael marc anawdurdodedig os yw'n fwy na 30 munud yn hwyr. Mae'n rhaid i bob disgybl sy'n hwyr fynd i'r swyddfa.

Mae adroddiad y llywodraethwyr i rieni'n cofnodi ffigurau presenoldeb yr ysgol ar gyfer absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig. Mae'r ffigurau hyn ar gael hefyd ym mhrosbectws yr ysgol.

**Pryderon**
Mae'r ysgol yn gweithredu gweithdrefn absenoldeb diwrnod cyntaf lle mae rhieni'n cael galwad ffôn/e-bost/neges destun os nad yw eu plentyn yn yr ysgol erbyn 9.20am a'r ysgol heb gael gwybod am reswm. Os oes pryderon ynghylch diffyg presenoldeb neu brydlondeb plentyn, bydd yr athro dosbarth yn ymgynghori â'r pennaeth/swyddog lles ar unwaith. Ceir manylion canrannau presenoldeb neu hwyrni o gronfa ddata'r cyfrifiadur. Mae swyddog lles yr ysgol yn dangos hyn i'r rhiant/rhieni yn ystod trafodaeth ffurfiol. Os yw absenoldebau neu brydlondeb gwael yn parhau, mae swyddog lles yr ysgol yn cysylltu â'r swyddog lles addysg. Mae Miss Maxwell yn y swyddfa yn gyfrifol am gasglu cofnodion presenoldeb yn yr ysgol ac yn rhoi gwybod i'r pennaeth os oes rhesymau i boeni. Cynhelir cyfarfodydd wythnosol rhwng swyddog lles yr ysgol a'r swyddog lles addysg.

Ar ddiwedd pob tymor academaidd, anfonir adroddiad presenoldeb at rieni sy'n rhoi'r plant mewn parthau gwyrdd, ambr neu goch.

**Hybu Presenoldeb a Phrydlondeb Da**
**Gwasanaethau**
Mae'r swyddog lles addysg/pennaeth yn siarad â'r plant am faterion presenoldeb (megis cadw amser, esgusodion, salwch) o leiaf unwaith y flwyddyn mewn gwasanaeth ysgol.

**Trefn Dosbarth/Gwersi**

- Siartiau presenoldeb dosbarth.
- Tocyn presenoldeb ysgol 100%.
- Gwersi am ddweud yr amser.
- Mae plant yn dylunio posteri ar gyfer presenoldeb a phrydlondeb i'w harddangos yn yr ysgol.
- Ysgrifennu llythyrau.
- Trafodaethau dosbarth/cyngor ysgol am deimladau, hoff bethau a chas bethau am yr ysgol.
- Cefnogaeth gadarnhaol i ddisgyblion sydd wedi bod yn absennol ers cyfnod sylweddol – ailintegreiddio cynlluniedig.
- Anfonir cylchlythyr gyda thablau dosbarth/cynghrair ar gyfer canrannau presenoldeb at rieni.
- Cyhoeddiadau Twitter a facebook ar gyfer % presenoldeb.

**Gwobrau**

- Ar ddiwedd pob blwyddyn, mae'r disgybl(ion) â phresenoldeb 100% yn cael gwobr.
- Cyflwynir tystysgrifau i blant â phresenoldeb llawn yn ystod tymor/blwyddyn a'r rhai â phresenoldeb sylweddol well.
- Rhoddir amser egwyl ychwanegol/gwobr i'r dosbarth â'r presenoldeb uchaf bob tymor.

**Absenoldeb oherwydd salwch**
Mae Ysgol Gymraeg Tan-y-lan yn parhau i ddarparu cymaint o addysg ag y mae cyflwr meddygol y plentyn yn ei ganiatáu, gan gadw momentwm ei ddysgu. Mae Ysgol Gymraeg Tan-y-lan yn monitro presenoldeb disgyblion sy'n absennol o'r ysgol oherwydd salwch tymor byr neu gronig a chynhelir cysylltiadau agos â rhieni.

Darperir cefnogaeth addysgol, gan gynnwys gwaith a deunyddiau i ddisgyblion sy'n absennol o'r ysgol gyda chyflyrau meddygol am fwy na 2 wythnos. Defnyddir TGCh os yw'n ymarferol bosibl, gan gynnwys defnyddio CD-ROM, e-bost a gwefan yr ysgol i gael gwybodaeth. Mae'r staff yn cydgysylltu ag ymgynghorwyr meddygol a/neu ddarparwyr addysg yn y cartref fel bod disgyblion, yn ystod absenoldeb hirfaith, yn cael gwaith sy'n addas i'w hoed a'u grŵp gallu.

Ystyrir bod ailintegreiddio plant i'r ysgol ar ôl absenoldeb hir oherwydd salwch yn flaenoriaeth uchel. Mae'r ysgol yn ymgynghori â rhieni ar faterion cyffredinol, materion meddygol ac amser a chyflymder dychwelyd. Mae'r athro dosbarth/cydlynydd AAA, y cynorthwywyr addysgu a/neu'r tiwtor cartref/ysbyty'n cyfarfod i drafod dychwelyd i'r ysgol. Anogir ffrindiau a disgyblion eraill i helpu'r plentyn i ymgartrefu'n ôl yn yr ysgol. Rhoddir cefnogaeth ychwanegol (yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael) ar ôl dadansoddi anghenion plentyn.

**Triwantiaeth**
Mae'r holl staff yn ein hysgol yn credu ym mhwysigrwydd parhad yn nysgu pob plentyn. Mae'r staff hefyd yn poeni am ddiogelwch, lles a hapusrwydd pob plentyn. Er bod triwantiaeth yn brin iawn yn Ysgol Gymraeg Tan-y-lan, os yw'r staff yn amau bod plentyn efallai'n triwanta, cymerir camau gweithredu ar unwaith.

Os amheuir triwantiaeth, rhoddir gwybod i'r pennaeth a'r swyddog lles addysg. Cysylltir â'r rheini, naill ai dros y ffôn neu drwy ymweliad â'r cartref. Rydym yn annog rhieni i ddod â'u plentyn i'r ysgol fel y gellir trafod y rhesymau dros driwantiaeth. Y gobaith yw y gellir datrys y mater. Os nad yw'r pennaeth yn gallu siarad â'r rhiant/rhieni, bydd yn siarad â'r plentyn i gael gwybod a oes pryderon neu broblemau yn yr ysgol a allai wneud i'r plentyn beidio ag eisiau mynd. Os nodir problemau, mae'r rhain yn cael eu trafod a'u datrys â'r athro dosbarth/aelod staff/disgyblion eraill.

Yn Ysgol Gymraeg Tan-y-lan, rydym yn ceisio darganfod, trwy drafod â'r disgyblion unigol, dosbarthiadau a'r cyngor plant, yr hyn mae'r plant yn ei hoffi a ddim yn ei hoffi. Mae'r staff yn ystyried barn y plant ac, os oes modd, gwneir addasiadau i weithdrefnau dysgu ac addysgu ac amgylchedd yr ysgol.

**Monitro ac adrodd**
Mae swyddog lles yr ysgol a'r SLIA yn monitro presenoldeb yn wythnosol.
Archwilir Ffeil Presenoldeb (a gedwir yn y swyddfa) yn rheolaidd. Os bydd patrwm mynych o absenoldeb o Ysgol Gymraeg Tan-y-lan, bydd y pennaeth/swyddog lles addysg yn ffonio'r rhieni i ganfod y rheswm dros yr absenoldeb parhaus. Mae'r swyddog lles addysg yn cynnal gwiriad presenoldeb bob wythnos gyda swyddog lles yr ysgol i fonitro unrhyw

absenoldeb parhaol neu barhaus. Caiff ffurflenni crynodeb canrannau eu harchwilio bob mis ac mae'r pennaeth yn cydgysylltu â'r athrawon dosbarth i fonitro presenoldeb isel. Ar ben hynny, mae'r swyddog lles addysg yn cyfarfod â'r pennaeth bob wythnos i drafod materion presenoldeb, gan gynnig camau gweithredu, cyngor a chefnogaeth.

Mae'r SLIA hefyd yn cynnal gwiriadau prydlondeb "yn y man a'r lle" trwy dargedu disgyblion sy'n cyrraedd yr iard chwarae'n hwyr ar ddiwrnodau ar hap.

Mae'r corff llywodraethu'n bodloni ei ddyletswyddau statudol ac yn adrodd ar bresenoldeb fel rhan o'r adroddiad blynyddol i rieni.

Caiff y polisi hwn ei ddiweddaru'n flynyddol neu'n gynt os yw deddfwriaeth newydd yn caniatáu.

**Hysbysiadau o Gosb**

Gellir gofyn am hysbysiad o gosb gan yr ysgol, yr heddlu neu oddi mewn i wasanaeth lles addysg yr awdurdod lleol mewn perthynas ag absenoldeb anawdurdodedig yn yr ysgol. Os yw rhiant/gofalwr yn rhoi rheswm am absenoldeb, penderfyniad y pennaeth yw derbyn hyn ai peidio a sicrhau y cofnodir y gofrestr yn briodol.

Os gofynnir am hysbysiad, bydd y rhiant/gofalwr yn cael llythyr rhybudd sy'n rhoi 15 niwrnod i roi tystiolaeth i'r awdurdod lleol nad yw'r absenoldebau anawdurdodedig yn gyfiawn ac y dylid diwygio'r gofrestr. Os yw'r absenoldebau anawdurdodedig o ganlyniad i fynd ar wyliau yn ystod y tymor, nid anfonir rhybudd. Sylwer - nid oes terfyn ar nifer y rhybuddion ffurfiol y gellir eu cyhoeddi.

Os na roddir tystiolaeth neu os na dderbynnir tystiolaeth gan yr ysgol, cyhoeddir hysbysiad o gosb. Bydd £60 i'w dalu i ddechrau a fydd yn codi i £120 os nad yw'n cael ei dalu'n ddiymdroi. Os na thelir y gosb, bydd yr awdurdod lleol yn ystyried cyhoeddi achos erlyn yn erbyn rhiant/rhieni am y drosedd wreiddiol, sef ‘methu sicrhau bod y disgybl cofrestredig yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd’ dan Adran 444 Deddf Addysg 1996.

Dyddiad adolygu‘r polisi  Tachwedd 2023

Gan Mr Berian Wyn Jones , Pennaeth
Mrs K Williams – swyddog pressenoldeb